

DATGANIAD STRATEGAETH Y GRANT DATBLYGU DISGYBLION

Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion ynghylch defnydd ein hysgol o'r GDD ar gyfer blwyddyn academaidd 2024 i 2025.

Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd o fewn ein hysgol.

*Os yw'ch rhifau yn 5 neu lai, defnyddiwch * yn lle'r dyraniad er mwyn diogelu plant rhag cael eu hadnabod.*

Trosolwg Ysgolion

Manylion	Data
Enw'r ysgol	Ysgol Bro Cinmeirch
Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol	97
Cyfran (%) o ddisgyblion sy'n gymwys i'r GDD	6.2%
Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn	11.10.2024
Dyddiad y caiff ei adolygu	Medi 2025
Awdurdodwyd y datganiad gan	Llyr Gilmour Jones
Yn arwain ar y GDD	Ffion Higgins
Llywodraethwr sy'n arwain	John Lovegrove

Trosolwg Cyllid

Manylion	Swm
Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn academaidd hon	£4,600
Cyfanswm cyllideb y flwyddyn academaidd hon	£4,600

Rhan A: Cynllun Strategaeth

Datganiad o Fwriad

Byddem yn ceisio lleihau effaith tlodi ar gynnydd gan ddefnyddio'r dulliau addysgeg fwyaf effeithiol ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, gan gynnwys mewn cyd-destun dysgu cyfunol.

Byddem yn cefnogi llesiant dysgwyr a'u parodrwydd i ddysgu yn y dosbarthiadau, yn yr ysgol yn gyffredinol a drwy gyngor gan y grŵp Lleisiau Lles.

Canlyniadau a fwriedir

Mae hyn yn esbonio'r canlyniadau rydym yn anelu atynt **erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol**, a sut y byddwn yn mesur a ydynt wedi'u cyflawni.

Canlyniad a fwriedir	Meini prawf llwyddiant
Cefnogi dysgu mewn cyd-destun dysgu cyfunol	Sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfleoedd i fynychu gwersi canu/ cael cymryd rhan a dysgu eitemau ar gyfer yr Eisteddfod. Magu hyder drwy gelfyddydau mynegiannol. Cyfansoddi caneuon fel rhan o ddosbarthiadau am faterion penodol, ymdeimlad o berthyn yn yr iaith Gymraeg.
Cefnogi dysgu emosiynol a chymdeithasol	Disgyblion yn barod i ddysgu a chymryd rhan. Cyngor Lleisiau Lles, cornel clud, digwyddiadau penodol mewn blwyddyn yn canolbwyntio ar emosiynau/lles. Cydweithio gyda'r gymuned mewn digwyddiadau amrywiol yn ystod y flwyddyn.

Gweithgarwch yn y flwyddyn academiaidd hon

Mae hyn yn rhoi manylion sut rydym yn bwriadu gwario ein GDD **y flwyddyn academiaidd hon** i fynd i'r afael â'r heriau a restrir uchod.

Byddwn yn gwario ar amrywiaeth o adnoddau, staffio a defnyddio arbenigedd bobl yn y gymuned/ ardal leol i fynd i'r afael ar yr amcanion uchod.

Dysgu ac addysgu

Cost wedi'i chyllidebu: £ [5,076]

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
---------------------	--

Gwella darpariaeth i ddysgwyr ac ymgysylltiad dysgwyr drwy brynu adnoddau i greu ardal tu allan yn CA2.	Parodrwydd i ddysgu. Lles a hapusrwydd y dysgwyr. Adborth y dysgwyr.
Cydweithio gyda chriw Lleisiau Lles ysgolion cyfagos.	Codi brwdfrydedd ac ysbrydoli. Rhannu arferion da.

Rhan B: Adolygiad o ganlyniadau'r flwyddyn academaidd flaenorol

Canlyniadau'r GDD

Mae hyn yn rhoi manylion yr effaith a gafodd ein gweithgarwch GDD ar ddisgyblion ym mlwyddyn academaidd 2023 i 2024.

Defnyddiwyd y grant GDD ar adnoddau i gyfoethogi darpariaeth y disgyblion. Prynwyd mwy o adnoddau lles i ychwanegu i'r cornel clud yr ysgol, megis gemau teimladau, cerrig teimlo, bwrdd ysgrifennu a mwy o lyfrau sydd yn trafod materion a theimladau gwahanol. Wrth edrych ar ganlyniadau ein holiaduron lles mae'r mwyafrif yn ymwybodol o brosesau'r ysgol a lle caiff blentyn fynd os ydynt yn teimlo'n annifyr am rywbeth. Mae'r staff yn llawer mwy cydwybodol o'r Cwricwlwm ac wedi mynychu nifer o gyrsiau ac ymweld a thrafod gydag ysgolion eraill am eu cynlluniau o greu ardaloedd tu allan.